OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1217 (Cy. 199)

2025 No. 1217 (W. 199)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

LOCAL GOVERNMENT, WALES

Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

The Local Government (Standards Committees and Member Conduct) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"),

(b) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("Gorchymyn 2001"), ac

(c) Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008").

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch ymddygiad aelodau a chyflogeion awdurdodau lleol.

Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru sefydlu pwyllgor safonau. Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau ac is-bwyllgorau ynghyd â phenodiad, tymor swydd ac ailbenodiad aelodau annibynnol i bwyllgorau o'r fath.

Mae rheoliad 2 yn mewnosod diffiniadau o "swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol", "swyddog cofrestru" a "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2001. Mae hefyd yn diwygio rheoliad 6 o Reoliadau 2001 i ganiatáu i gyn-aelodau o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, o

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend—

(a) the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations"),

(b) the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001 ("the 2001 Order"), and

(c) the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008 ("the 2008 Order").

Part 3 of the Local Government Act 2000 ("the Act") makes provision concerning the conduct of local government members and employees.

Section 53(1) of the Act requires every relevant authority in Wales to establish a standards committee. The 2001 Regulations make provision with respect to the size, composition and proceedings of standards committees and sub-committees, and the appointment, term of office and re-appointment of independent members to such committees.

Regulation 2 inserts definitions of "politically restricted post", "registration officer" and "senior, cabinet or executive post" into regulation 2 of the 2001 Regulations. It also amends regulation 6 of the 2001 Regulations to allow former members of one or more relevant authorities, a corporate joint committee, or a

gyd-bwyllgor corfforedig, neu o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, wasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol neu gyd-bwyllgor corfforedig.

Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo'r cyn-aelod yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau i awdurdod yr oedd yn aelod ynddo, ac eithrio pan fo'r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn yr un awdurdod, ac yn yr achos hwnnw mae'r cyfnod aros yn bum mlynedd.

Pan fu'r cyn-aelod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd cyn y gall y cyn-aelod ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ac eithrio, pan fo'r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn awdurdod cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, mae'r cyfnod aros yn bum mlynedd.

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2001 i ganiatáu i gyn-swyddogion un neu ragor o awdurdodau perthnasol, o gyd-bwyllgor corfforedig, o awdurdod cyfansoddol neu o awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, wasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau.

Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo'r cyn-swyddog yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod y mae wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol neu swydd swyddog cofrestru ynddo. Mae'r un cyfnod aros yn gymwys mewn cysylltiad â gallu cyn-swyddog i ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig pan fo'r cyn-swyddog wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu mewn awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru mewn awdurdod cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.

Mae adran 49(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2001. Mae adran 50(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi ei nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2008.

constituent authority or constituent National Park authority of any corporate joint committee, to serve as an independent member of a standards committee of a relevant authority or corporate joint committee.

A waiting period of two years is imposed where the former member wishes to become an independent member of a standards committee of an authority in which they were a member, save where the former member held a senior, cabinet or executive post in the same authority, in which case the waiting period is five years.

Where the former member was a member of a corporate joint committee, or a constituent authority or constituent National Park authority of that corporate joint committee, a waiting period of two years is imposed before the former member can become an independent member of a standards committee of that corporate joint committee, save that, where the former member held a senior, cabinet or executive post in a constituent authority of that corporate joint committee, the waiting period is five years.

Regulation 2 also amends regulation 7 of the 2001 Regulations to allow former officers of one or more relevant authorities, a corporate joint committee, a constituent authority or a constituent National Park authority, to serve as an independent member of a standards committee.

A waiting period of two years is imposed where the former officer wishes to become an independent member of a standards committee of an authority in which they held a politically restricted post or the post of registration officer. The same waiting period applies with respect to the ability of a former officer to become an independent member of a standards committee of a corporate joint committee where the former officer held a politically restricted post in that corporate joint committee, or a constituent authority or constituent National Park authority of that corporate joint committee, or held the post of registration officer in a constituent authority of that corporate joint committee.

Section 49(2) of the Act makes provision for the principles which govern the conduct of members and co-opted members of relevant authorities in Wales. These principles are set out in the Schedule to the 2001 Order. Section 50(2) of the Act makes provision for a model code as regards the conduct expected of members and co-opted members of relevant authorities in Wales. The Model Code of Conduct is set out in the Schedule to the 2008 Order.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod i erthygl 2 o Orchymyn 2001 ddiffiniad o "nodweddion gwarchodedig" drwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Egwyddor 7 (cydraddoldeb a pharch) o'r Atodlen i Orchymyn 2001 drwy roi "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn lle "gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd".

Mae rheoliad 4 yn mewnosod ym mharagraff 1 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel y'i nodir yn yr Atodlen i Orchymyn 2008 ddiffiniad o "nodweddion gwarchodedig" drwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn diwygio paragraff 4 i roi "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn lle'r cyfeiriad at "rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd".

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

Regulation 3 inserts into article 2 of the 2001 Order a definition of "protected characteristics" by reference to the definition in section 4 of the Equality Act 2010. Regulation 3 also amends Principle 7 (equality and respect) of the Schedule to the 2001 Order by replacing the reference to "gender, race, disability, sexual orientation, age or religion" with "protected characteristics or socio-economic circumstances".

Regulation 4 inserts into paragraph 1 of the Model Code of Conduct as set out in the Schedule to the 2008 Order a definition of "protected characteristics" by reference to the definition in section 4 of the Equality Act 2010. It also amends paragraph 4 to replace the reference to "gender, race, disability, sexual orientation, age or religion" with "protected characteristics or socio-economic circumstances".

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 1217 (Cy. 199)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Gwnaed	*19 Tachwedd 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*21 Tachwedd 2025*
Yn dod i rym	*5 Ionawr 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 49(2), 50(2) a (3), 53(11)(a) a 105(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

Yn unol ag adrannau 49(5)(**2**) a 50(5)(**3**) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cynrychiolwyr hynny o awdurdodau perthnasol yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r personau eraill hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

(**1**) 2000 p. 22. Diwygiwyd adran 49(2) gan baragraff 8(3) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Diwygiwyd adran 50(2) a (3) gan baragraff 9(3) a (4) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn y drefn honno. Diwygiwyd adran 53(11)(a) gan baragraff 12(4)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 68(2)(c)(i) a (ii) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (dccc 4). Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 49(2) a 50(2) a (3) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Caniateir arfer y pwerau i wneud gorchymyn o dan adrannau 49(2) a 50(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**2**) Diwygiwyd adran 49(5) gan baragraff 8(5) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011, paragraff 53(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) a pharagraff 2(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p. 10).

(**3**) Diwygiwyd adran 50(5) gan baragraff 9(7) o Atodlen 4 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

2025 No. 1217 (W. 199)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Government (Standards Committees and Member Conduct) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

Made	*19 November 2025*
Laid before Senedd Cymru	*21 November 2025*
Coming into force	*5 January 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 49(2), 50(2) and (3), 53(11)(a) and 105(2)(a) of the Local Government Act 2000(**1**).

In accordance with sections 49(5)(**2**) and 50(5)(**3**) of the Act, the Welsh Ministers have consulted such representatives of relevant authorities as they considered appropriate, the Auditor General for Wales, the Public Services Ombudsman for Wales, and such other persons as they considered appropriate.

(**1**) 2000 c. 22. Section 49(2) was amended by paragraph 8(3) of Schedule 4 to the Localism Act 2011 (c. 20). Section 50(2) and (3) were amended by paragraph 9(3) and (4) of Schedule 4 to the Localism Act 2011 respectively. Section 53(11)(a) was amended by paragraph 12(4)(a) of Schedule 4 to the Localism Act 2011 and section 68(2)(c)(i) and (ii) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 (anaw 4). The powers conferred by sections 49(2) and 50(2) and (3) on the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The powers to make an order under sections 49(2) and 50(2) and (3) of the Local Government Act 2000 may be exercised to make regulations by virtue of section 39 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

(**2**) Section 49(5) was amended by paragraph 8(5) of Schedule 4 to the Localism Act 2011, paragraph 53(3) of Schedule 2 to the Public Audit (Wales) Act 2004 (c. 23) and paragraph 2(b) of Schedule 4 to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (c. 10).

(**3**) Section 50(5) was amended by paragraph 9(7) of Schedule 4 to the Localism Act 2011.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ionawr 2026.

Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

2.—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i "swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol" yr ystyr a roddir i "politically restricted post" gan adran 2(1), (1A) ac (1B) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**);

ystyr "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" ("*senior, cabinet or executive post*") yw—

(a) cadeirydd a etholir o dan adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**);

(b) is-gadeirydd a benodir o dan adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;

(c) aelod llywyddol a etholir o dan adran 24A(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**4**);

(d) dirprwy aelod llywyddol a benodir o dan adran 24B(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**5**);

(e) maer etholedig a etholir o dan adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(f) dirprwy faer a benodir o dan baragraff 1(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(**1**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/988 (Cy. 159); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 1989 p. 42. Diwygiwyd adran 2(1) gan adran 203(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); ac adran 21(2) a (3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4). Mewnosodwyd adran 2(1A) gan baragraff 7(a) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Mewnosodwyd adran 2(1B) gan O.S. 2021/1349 (Cy. 348).

(**3**) 1972 p. 70.

(**4**) Mewnosodwyd adran 24A gan adran 51(2) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**5**) Mewnosodwyd adran 24B gan adran 51(2) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Government (Standards Committees and Member Conduct) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 5 January 2026.

Amendments to the Standards Committees (Wales) Regulations 2001

2.—(1) The Standards Committees (Wales) Regulations 2001(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), at the appropriate place in alphabetical order insert—

""politically restricted post" ("*swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol*") has the meaning given by section 2(1), (1A) and (1B) of the Local Government and Housing Act 1989(**2**);

"registration officer" ("*swyddog cofrestru*") means an officer appointed under section 8(2A) of the Representation of the People Act 1983(**3**);

"senior, cabinet or executive post" ("*swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol*") means—

(a) a chairman elected under section 22(1) of the Local Government Act 1972(**4**);

(b) a vice-chairman appointed under section 24(1) of the Local Government Act 1972;

(c) a presiding member elected under section 24A(2) of the Local Government Act 1972(**5**);

(d) a deputy presiding member appointed under section 24B(2) of the Local Government Act 1972(**6**);

(**1**) S.I. 2001/2283 (W. 172), amended by S.I. 2023/988 (W. 159); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**2**) 1989 c. 42. Section 2(1) was amended by section 203(1)(a) of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28); and section 21(2) and (3) of the Local Government (Wales) Measure 2011 (nawm 4). Section 2(1A) was inserted by paragraph 7(a) of Schedule 5 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1). Section 2(1B) was inserted by S.I. 2021/1349 (W. 348).

(**3**) 1983 c. 2. Section 8(2A) was inserted by paragraph 68(1) of Schedule 16 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19).

(**4**) 1972 c. 70.

(**5**) Section 24A was inserted by section 51(2) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013.

(**6**) Section 24B was inserted by section 51(2) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013.

(g) arweinydd gweithredol a etholir o dan adran 11(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**);

(h) aelod o weithrediaeth awdurdod lleol a benodir o dan adran 11(2)(b)(**2**) neu (3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(i) Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a benodir yn unol ag adran 66 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

ystyr "swyddog cofrestru" ("*registration officer*") yw swyddog a benodir o dan adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**3**);".

(3) Yn lle rheoliad 6 (aelodau blaenorol awdurdod perthnasol) rhodder—

"**6.**—(1) Caiff person sydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn—

(a) ni chaiff unrhyw berson sydd wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol y mae'r person hwnnw wedi dal swydd o'r fath ynddo hyd nes y daw i ben y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf;

(b) ni chaiff unrhyw berson a oedd yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yr oedd y person hwnnw'n aelod ohono (nad oedd yn dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol) hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw ddiwethaf.

(**1**) Diwygiwyd adran 11(3) gan adran 62(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a pharagraff 11(4) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

(**2**) Diwygiwyd adran 11(2) gan adran 62(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a pharagraff 11(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011.

(**3**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd adran 8(2A) gan baragraff 68(1) o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).

(e) an elected mayor elected under section 39(1) of the Local Government Act 2000;

(f) a deputy mayor appointed under paragraph 1(3) of Schedule 1 to the Local Government Act 2000;

(g) an executive leader elected under section 11(3)(a) of the Local Government Act 2000(**1**);

(h) a member of the executive of a local authority appointed under section 11(2)(b)(**2**) or (3)(b) of the Local Government Act 2000;

(i) an Overview and Scrutiny Committee Chair appointed in accordance with section 66 of the Local Government (Wales) Measure 2011;".

(3) For regulation 6 (previous members of a relevant authority) substitute—

"**6.**—(1) A person who has been but is no longer a member of one or more relevant authorities may be an independent member of the standards committee of any relevant authority subject to the following conditions—

(a) any person who has held a senior, cabinet or executive post in one or more relevant authorities must not be an independent member of the standards committee of any relevant authority in which that person held such a post until the expiry of the period of five years commencing with the date on which that person last ceased to hold such a post;

(b) any person who was a member of one or more relevant authorities must not be an independent member of the standards committee of any relevant authority of which that person was a member (not holding a senior, cabinet or executive post) until the expiry of the period of two years commencing with the date on which that person last ceased to be a member of that authority.

(**1**) Section 11(3) was amended by section 62(5) of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 and paragraph 11(4) of Schedule 3 to the Localism Act 2011.

(**2**) Section 11(2) was amended by section 62(3) of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 and paragraph 11(2) of Schedule 3 to the Localism Act 2011.

(2) Caiff person sydd wedi bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ond nad yw'n aelod mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn—

(a) ni chaiff unrhyw berson sydd wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn awdurdod cyfansoddol cyd-bwyllgor corfforedig fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf;

(b) ni chaiff unrhyw berson a oedd yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw (nad yw'n dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn achos awdurdod cyfansoddol), fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, yr awdurdod cyfansoddol hwnnw neu'r awdurdod Parc Cenedlaethol hwnnw ddiwethaf."

(4) Yn lle rheoliad 7 (swyddogion blaenorol awdurdod perthnasol) rhodder—

"**7.**—(1) Caiff person sydd wedi bod yn swyddog i un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n swyddog mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol, ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys.

(2) Pan fo'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (1) wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, neu swydd swyddog cofrestru, mewn awdurdod perthnasol, ni chaiff y person hwnnw fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol y mae'r person hwnnw wedi dal swydd o'r fath ynddo hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf.

(2) A person who has been but is no longer a member of a corporate joint committee, or a member of a constituent authority or constituent National Park authority of any corporate joint committee, may be an independent member of the standards committee of any corporate joint committee subject to the following conditions—

(a) any person who has held a senior, cabinet or executive post in a constituent authority of a corporate joint committee must not be an independent member of the standards committee of that corporate joint committee until the expiry of the period of five years commencing with the date on which that person last ceased to hold such a post;

(b) any person who was a member of a corporate joint committee, or a member of a constituent authority or constituent National Park authority of that corporate joint committee (not holding a senior, cabinet or executive post in the case of a constituent authority), must not be an independent member of the standards committee of that corporate joint committee until the expiry of the period of two years commencing with the date on which that person last ceased to be a member of that corporate joint committee, constituent authority or National Park authority."

(4) For regulation 7 (previous officers of a relevant authority) substitute—

"**7.**—(1) A person who has been but is no longer an officer of one or more relevant authorities may be an independent member of the standards committee of any relevant authority, except where paragraph (2) applies.

(2) Where the person referred to in paragraph (1) has held a politically restricted post, or the post of registration officer, in a relevant authority, that person must not be an independent member of the standards committee of any relevant authority in which that person held such a post until the expiry of the period of two years commencing with the date on which that person last ceased to hold such a post.

(3) Caiff person sydd wedi bod yn swyddog i gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n swyddog i awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol cyd-bwyllgor corfforedig, ond nad yw'n swyddog mwyach, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ac eithrio pan fo paragraff (4) yn gymwys.

(4) Pan fo'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (3) wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol mewn unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, neu mewn awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru mewn awdurdod cyfansoddol unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig, ni chaiff y person hwnnw fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw hyd nes y daw i ben y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf."

(3) A person who has been but is no longer an officer of a corporate joint committee, or an officer of a constituent authority or constituent National Park authority of any corporate joint committee, may be an independent member of the standards committee of any corporate joint committee, except where paragraph (4) applies.

(4) Where the person referred to in paragraph (3) has held a politically restricted post in any corporate joint committee, or a constituent authority or constituent National Park authority of any corporate joint committee, or has held the post of registration officer in a constituent authority of any corporate joint committee, that person must not be an independent member of the standards committee of that corporate joint committee until the expiry of the period of two years commencing with the date on which that person last ceased to hold such a post."

Diwygio Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001

3.—(1) Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) yn y testun Saesneg, ar ddiwedd y diffiniad o "member", hepgorer "and";

(b) yn y testun Cymraeg, ar ddiwedd y diffiniad o "aelod cyfetholedig", hepgorer "ac";

(c) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"mae i "nodweddion gwarchodedig" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**);".

(3) Yn yr Atodlen, ym mharagraff 7 (cydraddoldeb a pharch) yn lle "gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd" rhodder "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol".

Amendments to the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001

3.—(1) The Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001(**1**) is amended as follows.

(2) In article 2 (interpretation)—

(a) in the English text, at the end of the definition of "member", omit "and";

(b) in the Welsh text, at the end of the definition of "aelod cyfetholedig", omit "ac";

(c) at the appropriate place in alphabetical order, insert—

""protected characteristics" ("*nodweddion gwarchodedig*") has the meaning given by section 4 of the Equality Act 2010(**2**);".

(3) In the Schedule, in paragraph 7 (equality and respect) for "gender, race, disability, sexual orientation, age or religion" substitute "protected characteristics or socio-economic circumstances".

(**1**) O.S. 2001/2276 (Cy. 166), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) 2010 p. 15.

(**1**) S.I. 2001/2276 (W. 166), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**2**) 2010 c. 15.

Diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

4. Yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**1**)—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"mae i "nodweddion gwarchodedig" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;";

(b) ym mharagraff 4(a), yn lle "rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd" rhodder "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol".

Amendments to the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

4. In the Schedule to the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008(**1**)—

(a) in paragraph 1(1), at the appropriate place in alphabetical order insert—

""protected characteristics" ("*nodweddion gwarchodedig*") has the meaning given by section 4 of the Equality Act 2010;";

(b) in paragraph 4(a), for "gender, race, disability, sexual orientation, age or religion" substitute "protected characteristics or socio-economic circumstances".

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
19 Tachwedd 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
19 November 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2008/788 (Cy. 88), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2008/788 (W. 88), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

ISBN 978-0-348-39743-7

£8.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1217